



Os ydych eisoes wedi cofrestru gyda deintydd y GIG ac angen gwneud apwyntiad ar gyfer triniaeth arferol, cysylltwch â'ch practis deintyddol yn uniongyrchol.

Os nad ydych wedi cofrestru gyda deintydd y GIG ar hyn o bryd, gallwch wneud cais am le ar-lein os:

- Ydych chi yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn.
- Nad ydych chi wedi cael triniaeth ddeintyddol arferol y GIG yng Nghymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf
- Rydych yn byw mewn cyfeiriad yn Gogledd Cymru am fwy na chwe mis y flwyddyn, neu wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yn yr ardal.

Gallwch ddefnyddio'r Porth Mynediad Deintyddol i wneud cais am le gyda deintydd GIG fel unigolyn a gallwch ychwanegu rhywun arall, fel plentyn o dan 16 oed. Gallwch hefyd wneud cais ar ran rhywun arall, fel aelod o'r teulu, ffrind neu rywun rydych yn gofalu amdano neu y mae gennych berthynas o ymddiriedaeth â nhw.

Dylai eich practis deintyddol blaenorol allu cynnig apwyntiad i chi os ydych chi wedi cael triniaeth gyda nhw yn ystod y pedair blynedd diwethaf.